**Cofnodion Heb eu Cadarnhau o Gyfarfod Eithriadol y Bwrdd ar 25 Mehefin 2026**
**Cynhaliwyd yn electronig drwy Microsoft Teams ac wyneb yn wyneb yn CQ2**
**Wedi'i ffrydio'n fyw ar y Rhyngrwyd**

| **Yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Pippa Britton | (PB) | Cadeirydd y Bwrdd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Sumina Azam | (SA) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig |
| Huw David | (HD) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |
| Nick Elliott | (NE) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol) a |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil |
| Clare Jenkins | (CJ) | Is-gadeirydd y Bwrdd, Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| Zoe Pietrzak | (ZP) | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cyllid a Pherfformiad |
| Tamsin Ramasut | (TR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Ian Kent | (IK) | Pennaeth Adrodd a Rheoli Ariannol |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Claire Sullivan | (CS) | Cynrychiolydd Ochr Staff |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Elisabeth Evans | (EE) | Cynrychiolydd Ochr Staff |

*Dechreuodd y cyfarfod am 10:05*

Heb eu Cadarnhau

| **PHW 2026.06.25/1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau** |
|---|---|
| Croesawodd PB bawb i'r cyfarfod, gan estyn croeso cynnes i'r rhai a oedd yn arsylwi'r trafodion ar-lein. Nododd mai cyfarfod Eithriadol o'r Bwrdd oedd hwn i gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol 2025/26 yn unol â'r amserlenni a nodir yn y Llawlyfr Cyfrifon.<br><br>**Nododd** y Bwrdd yr Ymddiheuriadau a restrir uchod. | |
| **PHW 2026.06.25/2** | **Datganiadau o Fuddiant** |
| Gofynnodd NE am Ddatganiadau o Fuddiant heblaw'r rhai a gofnodwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.<br><br>Nododd PV y cyfeiriwyd at yr holl Gyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol yn yr adroddiad Tâl 2025/26. | |
| **PHW 2026.06.25/3** | **Adroddiad Diwedd Blwyddyn: Adroddiad Blynyddol 2025/26** |
| Cyflwynodd PV Adroddiad Blynyddol 2025/26 ac amlinellodd y gofyniad i lunio'r adroddiad a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol â'r Llawlyfr Cyfrifon. Nododd y Bwrdd fod yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys tair elfen: yr Adroddiad Perfformiad, a fyddai'n ffurfio'r adroddiad i'r cyhoedd ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol; yr Adroddiad Atebolrwydd, sy'n ymgorffori adroddiadau ar lywodraethu, taliadau ac archwilio; a'r Cyfrifon Ariannol Blynyddol.<br><br>Nododd y Bwrdd fod y drafftiau o'r adroddiadau wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru ym mis Mai 2026, a bod y ddau wedi cadarnhau wedyn bod yr adroddiadau'n bodloni'r safonau gofynnol.<br><br>Roedd yr Adroddiad Perfformiad wedi cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Tîm Gweithredol, ac roedd yr Adroddiad Atebolrwydd wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol (ACGC) ar 7 Mai, wedi'i ddiweddaru yn dilyn adborth gan Lywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru, a'i ail-gymeradwyo gan yr ACGC ar 23 Mehefin. Roedd ACGC wedi ystyried y ddau fersiwn – y drafft a'r drafft terfynol – o'r Cyfrifon Blynyddol ac Adroddiad Atebolrwydd, ac wedi eu hargymell i'r Bwrdd i'w cymeradwyo. Roedd angen cyflwyno i Lywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru erbyn 30 Mehefin.<br><br>Dywedodd PV fod Pennaeth yr Archwiliad Mewnol wedi darparu barn sicrwydd rhesymol, a oedd wedi cael ei nodi yn yr Adroddiad Atebolrwydd.<br><br>Cyflwynodd ZP y Cyfrifon Ariannol Blynyddol a chadarnhau eu bod wedi cael eu harchwilio drwy'r broses briodol. Esboniodd fod yr holl ddyletswyddau ariannol wedi'u cyflawni a bod Archwilio Cymru wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod. Roedd nifer bach o fân gamddatganiadau wedi'u nodi a'u cywiro, heb i unrhyw argymhellion archwilio gael eu | |

Heb eu Cadarnhau

gwneud. Tynnodd ZP sylw at ansawdd uchel y cyfrifon, y papurau gwaith a'r prosesau ategol, yn ogystal â'r berthynas gadarnhaol ac adeiladol ag Archwilio Cymru.

Diolchodd PB i bawb a fu'n rhan o baratoi'r adroddiadau, gan nodi'r canlyniad eithriadol a adlewyrchwyd yn yr adroddiad archwilio. Cydnabu fod derbyn barn archwilio ddiamod heb unrhyw argymhellion yn gamp sylweddol, a gofynnodd i ddiolch ffurfiol gael ei gofnodi i'r holl dimau a gyfrannodd, i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ac i'r Tîm Cyllid, am y sicrwydd a ddarparwyd gan hyn.

Mynegodd TC ddiolch hefyd i'r holl dimau a fu'n rhan o'r gwaith, gan gydnabod yn benodol ZP, NS ac IK yn y Tîm Cyllid, a PV, LB a chydweithwyr yn Uned Fusnes y Bwrdd ac yn y Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol, am eu cyfraniadau at yr adroddiadau ac am arwain y broses. Nododd TC ehangder y gweithgareddau sefydliadol a adlewyrchir yn yr Adroddiad Perfformiad, gan gynnwys cyflawniadau allweddol a meysydd heriol, ac amlygodd bwysigrwydd peidio â chael unrhyw argymhellion archwilio fel sylfaen gadarn ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad a **chymeradwyo** Adroddiad Blynyddol 2025/26 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

| **PHW 2026.06.25/4** | **Dyddiad y Cyfarfod Bwrdd Ffurfiol Nesaf** |
|---|---|
| Diolchodd PB i bawb am eu cyfraniadau i'r cyfarfod. Nododd y Bwrdd y cynhelid y cyfarfod nesaf ar **7 Gorffennaf 2026**, gyda chyfarfod llawn nesaf cyhoeddus y Bwrdd wedi'i drefnu ar gyfer **30 Gorffennaf 2026**. | |

*Daeth y cyfarfod i ben am 10:15*

Heb eu Cadarnhau